



Gofalwr Maeth Hwb Mockingbird – Disgrifiad o'r rôl

Disgwyliadau gan Ofalwr Maeth Hwb:

Gwybodaeth a Phrofiad:

Mae'n rhaid i **Ofalwyr Maeth Hwb** feddu ar brofiad o faethu a'r gallu i ddarparu gofal i ystod amrywiol o blant. Dylai ymgeiswyr fod wedi cwblhau (neu'n fodlon eu cwblhau ar y cwrs nesaf sydd ar gael) QCF, Hyder mewn Gofal a Meithrin Ymlyniad (3 modiwl).

Cysgu dros nos a Chefnogaeth

Dylai fod gan **ofalwr maeth hwb** 2 wely gwag, mewn ystafelloedd gwely ar wahân yn ddelfrydol. Bydd y **gofalwr maeth hwb** yn darparu cefnogaeth dros nos a gofal dydd i'r clwstwr ac yn gyfrifol am reoli

Foster with Flintshire
make a difference to a local child

09/08/2019

calendr misol yr hwb. Bydd **gofalwr maeth hwb** yn gweithio gyda gofalwyr **lloeren** i normaleiddio cefnogaeth a seibiant gan ddefnyddio'r termau "amser teulu" ac "aros dros nos" yn unol â rhaglen Mockingbird. Bydd angen i'r **gofalwr maeth hwb** flaenoriaethu anghenion grŵp cymhleth, rheoli dynameg y grŵp ac uno'r grŵp fel teulu estynedig.

Argaeledd

Dylai bod y **gofalwr maeth hwb** ar gael i gefnogi'r Clwstwr 6 diwrnod yr wythnos ac ar gael ar benwythnosau ar gyfer cefnogaeth Clwstwr ar wahân i 1 penwythnos y mis (bydd y diwrnod a'r penwythnos nad ydynt ar gael yn cael ei drafod a'i gynllunio gyda **Gweithiwr Cymdeithasol Goruchwyliol Mockingbird**). Dylai bod ymgeiswyr ar gael i ymgymryd â'r rôl am isafswm o ddwy flynedd. Ni ddylai'r **gofalwr maeth hwb** gael unrhyw ymrwymadau gwaith eraill.. Bydd ymrwymadau gofal eraill yn cael eu hystyried fesul achos e.e. lleoliadau llawn amser, plant biolegol, wyrion a wyresau.

Proffesiynol, dyfeisgar a rhagweithiol

Bydd y **gofalwr maeth hwb** yn gweithio mewn partneriaeth gyda Gofalwyr Maeth a Gweithwyr Cymdeithasol i ddatrys problemau, cynyddu diogelwch, lles a sefydlogrwydd lleoliad. Byddwch yn datblygu perthynas gryf a gydweithredol gyda **Gweithiwr Cymdeithasol Goruchwyliol Mockingbird** a chyfarfod yn rheolaidd i adrodd yn ôl ar sefydlogrwydd y clwstwr. Bydd y **gofalwr maeth hwb** yn adeiladu pont rhwng Gwasanaethau Cymdeithasol Sir y Fflint a'r gofalwyr pe bai angen. Dylai **gofalwyr maeth hwb** fod yn rhagweithiol wrth rannu gwybodaeth a syniadau am y dulliau gorau o gefnogi datblygiad plant a phobl ifanc a sut i ymateb i ymddygiad heriol.

Dylai **gofalwyr maeth hwb** allu darparu cefnogaeth i ofalwyr ar ystod eang o heriau maethu a chyfeirio at adnoddau defnyddiol i wella canlyniadau ar gyfer plant a phobl ifanc gan gynnwys lechyd ac Addysg.

Cadw Cofnodion

Bydd y **gofalwr maeth hwb** yn cadw cofnodion gweithgarwch cywir ac amserol o'r holl ofal sy'n cael ei ddarparu i blant a chefnogi gofalwyr lloeren. Bydd angen i **ofalwyr maeth hwb** gyfrannu at adroddiadau fel bo'r angen. Dylai **gofalwyr maeth hwb** feddu ar safon dda o sgiliau llafar, ysgrifenedig a chyfrifiadurol, gyda'r gallu i gofnodi gwybodaeth yn briodol a chywir, gan gyfrannu at asesiadau llys a'r system rheoli achos.

Dirprwyo a hunanofal

Efallai y bydd **gofalwyr maeth hwb** yn gweld bod teuluoedd maeth **lloeren** angen llawer o gefnogaeth emosiynol ac ymarferol. I ymdopi â'r pwysau hyn mae angen i **ofalwyr maeth hwb** Mockingbird allu cael amser o'r rôl a dirprwyo tasgau i ddirprwy ofalwr a'r clwstwr ehangach. Dylai bod y clwstwr yn cefnogi ei hunan ac ni ddylai fod yn gwbl ddibynol ar y **gofalwr maeth hwb**. Dylai **gofalwyr maeth hwb** annog gofalwyr eraill o ran pwysigrwydd hunan-ofal.

Hyblygrwydd a gwneud penderfyniadau

Bydd y **gofalwr maeth hwb** yn darparu cefnogaeth argyfwng ar gyfer teuluoedd maethu **Lloeren** yn y Clwstwr. Gallai hyn gynnwys addasu cynlluniau i ddelio gyda digwyddiadau nad oes modd eu rhagweld. Gall y **gofalwr maeth hwb** alw ar aelodau'r clwstwr i gefnogi wrth reoli argyfwng. Bydd y **gofalwr maeth hwb** yn gyfrifol am wneud penderfyniadau y tu hwnt i oriau arferol a chael yr ymreolaeth i wneud penderfyniadau ar adegau o argyfwng yn unol â pholisïau a gweithdrefnau Diogelu Cyngor Sir y Fflint.

Cyfathrebu a Rhannu Gwybodaeth

Bydd y **gofalwr maeth hwb** yn derbyn y wybodaeth ofynnol am y gofalwyr a'r plant o fewn y clwstwr er mwyn gallu darparu gofal addas. Dylid cadw'r wybodaeth hon yn gyfrinachol.

Dylai bod y **gofalwr maeth hwb** yn gyfathrebwr cryf ac yn gallu meithrin a datblygu perthnasau ystyrion gyda phlant ac oedolion. Dylai'r **gofalwr maeth hwb** geisio cynnal cyswllt gyda'r holl ofalwyr **Lloeren** a bod yn ymwybodol o unrhyw newidiadau neu anawsterau sy'n gwaethygu, gan ddarparu cyngor a chefnogaeth mewn modd sy'n cynnig anogaeth ac nad yw'n barnu. Efallai y bydd y **gofalwr maeth hwb** yn sefydlu dull cyfathrebu e.e. WhatsApp i gyfathrebu gyda'r clwstwr.

Cyfringu, eirioli a delio â gwrthdaro

Bydd y **gofalwr maeth hwb** angen diplomyddiaeth i ddatrys problemau a bod yn hyderus wrth ddelio â gwrthdaro. Efallai bydd y **gofalwr maeth hwb** yn darparu cefnogaeth i deuluoedd **Lloeren** ar adegau o straen ac mae'n rhaid iddynt ddeall emosiynau pobl, sut maent yn teimlo ac ymateb i'w hanghenion. Efallai bydd y **gofalwr maeth hwb** yn darparu cefnogaeth a chyfringu mewn argyfwng rhwng plant a'u teuluoedd maeth i annog ailuno a sefydlogrwydd lleoliad. Efallai bydd y **gofalwr maeth hwb** yn eirioli ar ran plentyn / person ifanc neu ofalwr **Lloeren**, er enghraifft mewn cyfarfodydd ysgol. Dylai'r **gofalwr maeth hwb** fod yn gefnogol ond dylai barhau'n niwtral tuag at bawb yn y clwstwr. Bydd angen cydbwysedd cymhleth sydd angen sgiliau myfyriol a pharodrwydd i geisio cyngor gan **Weithiwr Cymdeithasol Goruchwyliol Mockingbird**. Dylai'r **gofalwr maeth hwb** gael dealltwriaeth a derbyn cyfnodau newidiol yn natblygiad y grŵp.

Cynllunio a threfnu digwyddiadau cymdeithasol

Bydd y **gofalwr maeth hwb** yn gweithio gyda'r clwstwr i gynllunio ystod o weithgareddau cymdeithasol ar gyfer plant a'u tai **Lloeren**. Efallai y cynhelir y digwyddiadau hyn yng nghartref y Gofalwr Hwb neu yn y gymuned. Gallai'r digwyddiadau hyn fod yn foreau coffi, hyfforddiant anffurfiol neu ddigwyddiadau ar gyfer y teulu cyfan. Bydd y **gofalwr maeth hwb** yn annog presenoldeb yng ngweithgareddau Mockingbird a gweithgareddau cymdeithasol maethu cyffredinol. Bydd y **gofalwr maeth hwb** yn gyfrifol am gyllideb ar gyfer gweithgareddau cymdeithasol clwstwr a fydd yn cael ei benderfynu gan y grŵp.

Cludiant a Logisteg

Mae'n rhaid i'r **gofalwr maeth hwb** feddu ar drwydded yrru ddilys a gallu darparu cludiant fel y bo'n briodol ar gyfer teuluoedd **Lloeren**. Efallai bydd y **gofalwr maeth hwb** yn cydlynu'r clwstwr i ddarparu cludiant.

Cyswllt / Amser Teulu

Bydd y **gofalwr maeth hwb** yn cefnogi a hyrwyddo amser teulu ar gyfer plant a phobl ifanc yn y clwstwr gyda brodyr a chwiorydd (a'r teulu biolegol os yw'n ddiogel gwneud hynny). Bydd y **gofalwr maeth hwb** yn creu amgylchedd croesawgar ar gyfer amser teulu, pan fo'r cartref hwb wedi'i nodi fel lleoliad addas a bod hyfforddiant wedi'i ddarparu i oruchwylio cyswllt. Efallai bydd y **gofalwr maeth hwb** yn gweithredu fel cyfryngwr gyda'r teuluoedd biolegol.

Taliad

Bydd y **gofalwr maeth hwb** yn derbyn taliad uwch oddeutu £24,000 y flwyddyn (£461 yr wythnos) a lwfans benodedig o £15,000 y flwyddyn (£288 yr wythnos) i ymdrin â phob sefyllfa ofal posibl yn y clwstwr. Mae'r holl daliadau gan gynnwys gofal dydd, milltired, hyfforddiant a threuliau cyswllt wedi'u cynnwys yn y taliad hwn, felly nid oes angen i **ofalwyr maeth hwb** lenwi gwaith papur ar gyfer hawlio taliad. Bydd cyllideb ar gyfer gweithgareddau cymdeithasol yn cael ei ddarparu. Bydd y **gofalwr maeth hwb** yn hunan-gyflogedig ac yn gyfrifol am gadw cofnodion o'r gofal sy'n cael ei ddarparu ar gyfer ffurflenni treth.